

Bwletin y Farchnad HCC


Tachwedd 2019

Mae data Kantar Worldpanel yn dangos fod mwy yn cael ei wario ar gig oen ym Mhrydain eleni nag oedd y llynedd. Mae'n dangos hefyd fod pobl, er hwylustod, yn prynu'r cig yn amlach, er eu bod yn prynu llai ar y tro. Bydd bwletin y farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar werthiannau cig oen yn y siopau ym Mhrydain yn ystod y flwyddyn tan 06 Hydref 2019.

Cyfanswm gwerthiant cig oen yn siopau (DU)

Mae data Kantar Worldpanel am eleni hyd yma (tan 06 Hydref 2019) yn dangos taw rhywbeth yn debyg i'r llynedd yw cyfaint yr holl gig oen a werthwyd ym Mhrydain, sef 46,000 tonnelli. Nid oedd llawer o wahaniaeth ychwaith yng nghyfaint y cig ffres a'r cig wedi rhewi – dim ond 0.9% yn llai na'r llynedd oedd gwerthiant y cig wedi rhewi. Er nad oedd fawr o wahaniaeth yn y cyfaint, cafwyd cynnydd o 2.0% i £435.8 miliwn yn y gwariant. Mae'r gwariant cyffredinol ar gig oen yn y siopau wedi gwella oherwydd cynnydd o 2.0% yn y pris cyfartalog, sef £9.48/kg.

Crynodeb o werthiant cig oen yn siopau DU (tan 06.10.2019)




ffynhonnell: Kantar Worldpanel

Wrth edrych yn fanylach ar y data, gwelwn fod amllder y prynu wedi cynyddu 1.9% i 5.0 gwaith (y prynwr) yn ystod y cyfnod dan sylw. Wrth i ddefnyddwyr chwilio am brydau bwyd cyfleus, mae nhw'n prynu cig oen yn amlach, ond yn prynu llai ar y tro, ac felly mae'r pryniant cyfartalog bellach yn 0.7kg (1.1% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol). Roedd bron i hanner (48.1%) yr aelwydydd ym Mhrydain wedi prynu cig oen yn y siopau yn ystod y cyfnod hwn, er bod hyn yn 1.7% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach. I grynhoi, prynodd llai o bobl gig oen yn y siopau (-0.8%), ond prynwyd mwy gan bob defnyddiwr (+0.8%).

Gwerthiant toriadau cig oen manwerthu a werthir yn y DU

Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng cyfaint y cig oen a werthwyd yn y siopau ym Mhrydain yn ystod y cyfnod dan sylw eleni a'r cyfnod cyfatebol y llynedd. Fodd bynnag, mae data gan Kantar Worldpanel yn dangos fod ychydig o newid yng nghyfaint y gwahanol gategoriâu o gig oen o'r naill flwyddyn i'r llall. Roedd y newid mwyaf, sef 6.4%, yng nghyfaint yr ysgwyddau rhostio. Yn dilyn gostyngiad yn y cyfaint, gwelwyd gostyngiad hefyd (-6.2%) yn y gwariant ar ysgwyddau rhostio. Roedd cyfaint y coesau rhostio a werthwyd yn weddol debyg i'r llynedd (-0.3%), ond gwelwyd cynnydd o 6.2% yng nghyfanswm y gwariant oherwydd cynnydd o 54c i £8.88/kg yn y pris cyfartalog. Gyda'i gilydd, roedd y cymalau rhostio yn cyfrif am 45.7% o holl werthiannau cig oen Prydain (o ran gwerth), sef 0.8% yn fwy na'r cyfnod cyfatebol llynedd. Er bod gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm cyfaint y cymalau rhostio a werthwyd yn ystod y cyfnod dan sylw, cafwyd cynnydd o fwy nag 20% yng ngwerthiant cymalau rhostio wedi rhewi mewn cymhariaeth â'r gostyngiad o 2.6% yng ngwerthiant cymalau rhostio ffres.



Toriadau cig oen manwerth a werthir yn y DU (tan 06.10.2019)



ffynhonnell: Kantar Worldpanel

Cafwyd cynnydd sylweddol o 6.2% yng nghyfaint y briwgig oen a werthwyd yn ystod y cyfnod dan sylw am fod pobl yn prynu'r math hwn o gig yn amlach (+5.0%). Yn dilyn y cynnydd yn y cyfaint a werthwyd, a'r cynnydd o 2.3% yn y pris cyfartalog, cafwyd cynnydd o 8.7% o'r naill flwyddyn i'r llall yng nghyfanswm y gwariant ar friwgig, a olygai fod briwgig oen yn cyfrif am 9.1% o gyfanswm y gwerthiant cig oen ym Mhrydain Fawr yn ystod y cyfnod dan sylw.







GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 175.1c/kg am yr wythnos a ddaeth i ben ar 02 Tachwedd, sef 0.8c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, a 11.2c yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae prisiau gwartheg wedi parhau i ostwng yn is na'r cyfartaledd-pum-mllynedd, ac mae'r pris pwysau byw ar hyn o bryd yn 11.7c yn is na'r cyfartaledd-pum-mllynedd (cyfartaledd 2014-18: 186.8c/kg). Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 02 Tachwedd, gostyngodd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer pob categori o wartheg dethol. Roedd y gostyngiad mwyaf (-3.0c i 314.3c/kg), ar gyfer heffrod, ac roedd pris teirw ifanc wedi gostwng 2.8c i 299.4c/kg. Roedd prisiau bustych yn gymharol sefydlog o'u cymharu â'r wythnos flaenorol (-0.1c i 316.5c/kg), ac maent bellach 33.8c yn is na'r flwyddyn flaenorol.



Roedd nifer yr holl wartheg a laddwyd mewn lladd-dai'r DU ym mis Medi yn 228,600 pen - sef 6.3% yn fwy nag ym mis Awst, a 4.9% yn fwy nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Roedd cyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd yn ystod y mis, sef 170,100 pen, yn sylweddol uwch na'r mis blaenorol (+ 6.3%) a'r flwyddyn flaenorol (+ 6.8%). O fewn y cyfanswm hwn, roedd nifer yr heffrod a laddwyd yn 11.1% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ac roedd y pwysau carcas cyfartalog o 316.6kg - yn ysgafnach nag a fu hyd yma eleni, ac yn 2.1kg yn ysgafnach na'r llynedd.



DEFAID

Mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) cyfartalog ar gyfer Cymru yn y marchnadoedd da byw yn dal i ddilyn y duedd dymhorol. Yn ystod yr wythnos yn diwedd 02 Tachwedd, roedd yn 169.3c/kg. Mae'r pris cyfredol yn 7.4c yn uwch na'r wythnos flaenorol ac, am y tro cyntaf ers dechrau mis Awst, mae'n uwch hefyd nag oedd y llynedd (+ 3.4c). Yn ogystal, mae'r pris bron 12c yn uwch na'r cyfartaledd-pum-mllynedd (cyfartaledd 2014-18: 157.4c/kg). Roedd y pris cyfartalog am famogiaid difa yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru yn yr wythnos yn diwedd 02 Tachwedd yn £48.40, sef £1.70 yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, a £7.20 yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Roedd y prisiau pwysau marw ym Mhrydain yn yr wythnos yn diwedd 02 Tachwedd yn 377.1c/kg. A chaeodd y bwlch rhwng y prisiau eleni a'r llynedd hyd yn oed fwy, i 9.6c.

Cyfanswm yr holl ddefaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Medi oedd 1.3 miliwn pen, sef 6.4% yn llai nag ym mis Awst, ond 7.6% yn fwy nag yn y mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Ŵyn dethol oedd bron 89% o'r holl ddefaid a laddwyd yn ystod y mis, ac roedd 13.5% yn fwy o famogiaid a hyrddod difa na'r llynedd. Wrth edrych ar y cyfnod rhwng Mai a Medi eleni, mae niferoedd yr ŵyn dethol, sef 5.4 miliwn pen yn 5.1% yn uwch nag oeddynt flwyddyn yn gynharach. Cynhyrchwyd mwy o gig defaid ym mis Medi nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd am fod mwy o ŵyn dethol a defaid difa wedi cael eu lladd; roedd pwysau'r carcassau yn debyg i'r hyn oeddynt flwyddyn yn gynharach.



MOCH

Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 158.9c/kg yn yr wythnos yn diwedd 26 Hydref, sef 0.3c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol a 9.9c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach. Ddiwedd mis Mehefin, cododd prisiau yn uwch na'r hyn oeddynt flwyddyn yn gynharach, ac mae'r duedd hon wedi parhau, gyda phrisiau 10.4c yn uwch na'r cyfartaledd-pum-mllynedd (cyfartaledd 2014-18: 148.5c/kg). Nid oedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain ar gael ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 26 Hydref; roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £41.10 y pen, sef 10.21% yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd nifer yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Medi yn 906,600 pen, sef 5.3% yn llai nag ym mis Awst, a 4.2% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol. Lladdwyd 88,100 o foch heb fagu ym mis Medi, sef 5.5% yn llai nag yn y mis blaenorol ond 4.5% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Cynhyrchwyd 5.9% yn fwy o borc yn ystod y mis, oherwydd cafodd mwy o foch eu lladd ac am fod eu carcassau'n drymach. Hyd yma eleni, cynhyrchwyd 2.0% yn fwy o borc nag yn yr un cyfnod y llynedd. Yn dilyn galw cynyddol yng ngwledydd Asia oherwydd Clwy Affricanaidd Y Moch, mae allforion porc y DU i Tsieina yn ystod naw mis cyntaf eleni yn 86.7% yn uwch nag oeddynt yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.